

Sant. Gwyddelan

Ar ddydd Mawrth, Mawrth yr 17eg 2020, bu i Sant Gwyddelan gau ei drysau, yn debyg i lawer iawn o eglwysi ac adeiladau cyhoeddus eraill. Roedd yn rhaid inni addasu ein bywyd eglwysig gan gydymffurfio gyda'r cyfyngiadau i wrthsefyll y pandemig. Bu inni fynd ati i atgyfodi hen ffyrdd o gyfathrebu – anfon llythyr papur, yn briodol, yn ystod y Pasg (ydych chi'n cofio'r rheiny?) Bu inni barhau gydag ein Newyddlen wythnosol ar-lein gan gynnig fideo wythnosol gyda gweddïau, darlleniadau, emynau (gyda Chantorion Sant Gwyddelan yn aml), a phregeth oedd wedi'i recordio yn yr awyr agored fel arfer. Daw'r bregeth o wahanol fannau o Ardal Weinidogaeth Bro Gwydyr. Bu inni fanteisio ar yr adnoddau ar-lein i rannu newyddion a syniadau ac i gefnogi ein gilydd.

Bu inni drefnu cyfarfod wythnosol ar-lein er mwyn i aelodau ein Heglwys, ledled yr ardal, fedru sgwrsio gyda'i gilydd. Gyda dyfodiad yr Haf wedi misoedd o aeafu, bu inni fynd ati i gynnal Boreau Coffi yn yr awyr agored mewn gerddi preifat yn y pentref. Fe ffurfiwyd sawl grŵp cerdded, gyda theithiau lleol o'n cartrefi, er lles ein hiechyd ac i gadw mewn cyswllt gyda ffrindiau.

Cafodd ein casgliadau arferol ar gyfer Banc Bwyd Blaenau Ffestiniog eu symud o'r Eglwys i Siop y Pentref. Gyda diolch i drigolion y pentref am eu haelioni, bu i'r casgliadau barhau ac roedden nhw'n fwy llwyddiannus nag erioed. Er mwyn medru parhau gyda gwaith yr Eglwys, bu inni annog pobl i gyfrannu ar-lein er mwyn osgoi gorfod trin arian.

Bu i Richard Griffin drefnu cystadleuaeth ffotograffiaeth "Y Cloi Mawr" a wnaeth gasglu £70 angenrheidiol tuag at gyllid yr Eglwys. Y cystadleuydd buddugol oedd Connie Brewer gyda'i llun o fwtsias y gog [ar dudalen blaen y newyddlen hon].

Mae'r rhain i gyd a mwy yn dyst i gymuned sy'n barod i addasu a pheidio â cholli fydd.

Felly rydym yn edrych tua'r Nadolig gyda gobaith eleni wrth i'r Adfent gychwyn ym mis Rhagfyr. Fe fydd gwasanaethau Nadolig ond dim ond lle i hyn a hyn fydd yno (ia, hyd yn oed yn Eglwys fach Sant Gwyddelan), ar Noswyl y Nadolig a Diwrnod Nadolig wrth inni groesawu plentyn Crist i mewn i'n calonnau unwaith eto.

Stuart Elliott

